**CRONFA BENSIYNAU CLWYD**

**Archwilio Cyfrifon 2025/2026**

**HYSBYSIR DRWY** hyn yn ôl Adrannau 29 a 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004a Rheoliadau Cyfrifon (Cymru) 2014 (fel y'I diwygiwyd).

1. Rhwng 29 Medi, 2026 a 26 Hydref, 2026, gan gynnwys y ddau ddyddiad, a rhwng 9.00a.m. a 4.00p.m., caiff unrhyw berson sydd â diddordeb i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon uchod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 ynghyd â'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau perthnasol. Mae'r Cyngor yn gofyn i benodiad gael ei wneud gyntaf trwy wneud cais i'r Prif Swyddog Cyllid, Ty Dewi Sant, Ewlo, CH5 3FF.

2. Ar, neu ar ôl, 27 Hydref 2026 am 10.00a.m. yn Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ, ar 02920 320500, bydd yr Archwiliwr (Catherine Mealing-Jones, Archwilio Cymru ), ar gais unrhyw etholwr llywodraeth leol o'r ardal y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddi, yn rhoi cyfle i'r cyfryw etholwr, neu ei gynrychiolydd, ei holi ynglyn â'r cyfrifon, a gall etholwyr, neu eu cynrychiolwyr, ddod i weld yr Archwiliwr i wrthwynebu unrhyw un o'r cyfrifon.

3. Ni chaniateir i etholwr, neu ei gynrychiolydd, gyflwyno gwrthwynebiad oni roddwyd rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i'r Archwiliwr o'r gwrthwynebiad arfaethedig gan nodi sail y gwrthwynebiad hwnnw. Rhaid anfon copi o'r cyfryw rybudd hefyd at y sawl a enwir isod yn y cyfeiriad a nodwyd.

DYDDIEDIG 15 Medi 2026

Gary Ferguson
Prif Swyddog Cyllid
Cyngor Sir y Fflint
Ty Dewi Sant
Ewlo
Sir y Fflint
CH5 3FF